Senedd Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Trefn Cyfarfod Senedd yr Ysgol - 13.11.23

	Pwyllgor:	**Llais Llantrisant**
	Eitem	**Nodiadau**
1	Hawl y Mis	Trafodwyd yr hawliau a phenderfynwyd dewis Hawl #12 ar gyfer mis Tachwedd  Argraffwyd poster ar gyfer wal y pwyllgor yn y coridor. Rhoddwyd copiau ar wefan yr ysgol.
2	Blychau Sylwadau	Agorwyd y blychau a thrafodwyd sylwadau ein ffrindiau. 1. Stopio Bwlio - ND D5 2. Gwella'r Iard - TH D5 3. Cadair i symud lan y grisiau - PW D5 Aeth aelodau Blwyddyn 6 (KN ac ID) i drafod â'r plant i gasglu barn. *1. Mae'n debyg fod y plant wedi sortio'r broblem eu hunain erbyn hyn - dau ffrind yn cwympo mas.* *2. Mae'r plant eisiau llithren a siglenni ar yr iard (!)* *3. Tynnwyd sylw PW at y ffaith fod gennym lift yn yr ysgol i symud o lawr i lawr.*
3	Cyfarfod wythnosol	Penderfynwyd cynnal sesiwn 'drop-in' yn ystod amser chwarae'r bore bob dydd Gwener. Bydd y pwyllgor yn atgoffa'r plant eu bod nhw ar gael i siarad â nhw yr adeg honno.
4	Gwasanaeth	Bydd aelodau'r pwyllgor yn siarad â'r ysgol gyfan yn y gwasanaeth ar 24.11.23 er mwyn cyflwyno eu hunain ac i sôn am eu rôl nhw.